

Gweithdai

GWEITHDY A/E: GORLLEWIN CYMRU IACHACH

LLEOLIAD: PRIF RAN - LOLFA QUINELL AM; LLE TRAFOD - LOLFA QUINELL PM

HWYLUSWYR:

- Julia Wilkinson; Arweinydd Trawsnewid, Sir Gaerfyrddin
- Angela Phillips; Rheolwr Rhaglen a Newid Rhanbarthol

Mae cynllun Cymru Iachach Llywodraeth Cymru yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac atal salwch. Mae'r gweithdy hwn yn canolbwyntio ar y cynlluniau ar gyfer defnyddio adnoddau o Gronfa Trawsnewid a Chronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl a thrawsnewid y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarth Gorllewin Cymru.

GWEITHDY B/F: CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU IACHACH;

CENEDLAETHAU'R DYFODOL YN BYW'N DDA

LLEOLIAD: YSTAFELL PHIL BENNETT AM; PRIF RAN - LOLFA QUINELL PM

HWYLUSYDD:

- Lisa Davies, Prif Reolwr y Prosiect; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Yn unol â chynllun Cymru Iachach Llywodraeth Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi datblygu strategaeth iechyd a gofal 20 mlynedd, sy'n nodi eu cynlluniau ar gyfer cefnogi cymunedau i fyw bywydau iach a llawen. Mae'r gweithdy hwn yn cyflwyno ei weledigaeth a'i strategaeth ar gyfer cefnogi'r newid o wasanaeth sy'n trin salwch yn unig i un sy'n cadw pobl yn iach, yn atal afiechyd neu'n atal afiechyd rhag gwaethygu, ac yn darparu unrhyw gymorth sydd ei angen yn gynnar.

GWEITHDY C: YMWHYBYDDIAETH O AWTISTIAETH A'I DERBYN

LLEOLIAD: YSTAFELL CARWYN JAMES

HWYLUSWYR:

- Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a'i Derbyn; Dream Team Grŵp Rhaglen Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru
- Jenny Wombell; Tîm Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru

Mae Cynllun Ardal Gorllewin Cymru, 'Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd', yn nodi amcanion clir ar gyfer grymuso pobl ag anabledd dysgu i fod mor annibynnol â phosibl. Mae Pobl yn Gyntaf Sir Benfro yn darparu hyfforddiant cyfranogol a diddorol, ac yn arbenigo mewn cyrsiau sy'n ymwneud â hawliau dynol, ymwybyddiaeth, gwerthoedd ac agweddau, dewisiadau a phenderfyniadau, a chydraddoldeb, gan ddefnyddio profiad eu haelodau. Mae'r rhan fwyaf o'r sesiwn hon yn cael ei darparu gan bobl ag awtistiaeth yn unig, sy'n cyfuno gwybodaeth am beth yw awtistiaeth (a beth nad ydyw) gyda llawer o waith ymarferol yn ymwneud â chyfathrebu. I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar:

<http://www.accesspembrokeshire.co.uk/pembrokeshire-people-first-ppf/training/>

Mae'r sesiwn hon hefyd yn gyfle i ddysgu rhagor am y gwasanaeth awtistiaeth integredig rhanbarthol.

GWEITHDY D: DATBLYGIADAU'R GWEITHLU RHANBARTHOL LLEOLIAD: LLE TRAFOD - LOLFA QUINELL AM

HWYLUSWYR:

- Rebecca Jones; Rheolwr Newid a'r Rhaglen Ranbarthol - y Gweithlu

Mae'r strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol gyntaf erioed yn cael ei datblygu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda chefnogaeth y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Oxford Brookes.

Daeth yr ymgynghoriad ar y strategaeth, lle gwahoddwyd pobl i roi eu barn ar saith thema allweddol, pob un â set o gamau gweithredu i'w cymryd dros y 10 mlynedd nesaf, i ben ar 18 Medi. Bydd hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer y strategaeth gweithlu ranbarthol. Bydd y gweithdy hwn yn gyfle i gyfrannu at y themâu lleol a rhanbarthol a fydd yn cefnogi'r strategaeth gweithlu ranbarthol.

GWEITHDY G: GWEITHREDU SIGNS OF SAFETY LLEOLIAD: YSTAFELL CARWYN JAMES

HWYLUSWYR:

- Phil Pike, Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd ag asiantaethau partner ac uwch-arweinwyr ledled Cymru, yn gweithio'n galed i wella bywydau pobl ifanc yng Nghymru drwy eu rhaglen newid. Mewn ymateb i hyn ac amcanion Cynllun Ardal Gorllewin Cymru, mae gwasanaethau perthnasol yn y rhanbarth yn gweithio i gryfhau cysylltiadau rhwng Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a gwasanaethau eraill yn y Cyngor megis gofal i oedolion a thai yn ogystal â gwasanaethau yn y gymuned, sy'n helpu teuluoedd i fod yn fwy annibynnol ac yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol yn eu cymunedau. Mae'r gweithdy hwn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy fabwysiadu methodoleg gyson megis *Signs of Safety* i ategu gofal a chymorth ledled y rhanbarth.

GWEITHDY H: SICRHAU NEWID; GRŴP DATBLYGU GOFALWYR GORLLEWIN CYMRU

LLEOLIAD: YSTAFELL PHIL BENNETT PM;

HWYLUSWYR: Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol

Mae darparu gofal di-dâl yn dod yn fwyfwy cyffredin wrth i'r boblogaeth heneiddio, a disgwylir y bydd y galw am ofal a ddarperir gan wŷr a gwragedd a phlant sy'n oedolion yn fwy na dyblu dros y deng mlynedd ar hugain nesaf. Felly un o egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw gwella bywydau gofalwyr yng Nghymru. Sefydlwyd y Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol yng ngorllewin Cymru yn sgil gweithredu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 ac mae wedi parhau i arwain y gwaith o ddatblygu cymorth i ofalwyr a rhoi'r Cynllun Cyflawni Gofalwyr ar waith.

Mae'r gweithdy hwn yn amlinellu'r hyn sy'n cael ei ddarparu yn y rhanbarth ar hyn o bryd i gefnogi gofawyr, yn ogystal â chynnwys y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses o gyd-gynhyrchu datblygiadau yn y dyfodol.